Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Pwnc Cyfraith

Chwefror 2018

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd – destun
Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg. <http://bit.ly/2rtglxT>

Mae Cynllun Pwnc y Gyfraith yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Mae’r cynllun hwn yn weithredol mewn cyfnod o newid sylweddol o fewn y byd cyfreithiol a’r sector addysg uwch. Mae datblygiad (ac amwysedd cyfreithiol) Bil Cymru, datblygiad corpws Cymraeg yn y Gyfraith, darlithwyr sydd yn magu traddodiad o ddarlithio yn y Gymraeg, cynnydd yn statws y Gymraeg ac enw da i fodiwlau Cymraeg yn y Gyfraith i gyd yn cyfrannu at wneud dilyn modiwlau Cyfraith yn y Gymraeg yn atyniadol ac yn ddewis deniadol o ran gyrfa i fyfyrwyr.

Proses
Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu
Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o’r radd flaenaf i’r myfyrwyr sy’n dewis astudio o leiaf cyfran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i’r egwyddor honno.

Wrth weithredu’r cynllun newydd, bydd rhaid edrych i gryfhau aelodaeth Panel y Gyfraith ymhellach. Gyda newid pwyslais y Coleg o gyllido darlithwyr unigol i gyllido darpariaeth o fewn prifysgol, bydd y Cynllun yn datblygu ffyrdd o gynnig cefnogaeth i’r addysgwyr yn y sefydliadau sy’n darlithio yn y Gymraeg.

Strwythur y Cynllun
Mae Cynllun Pwnc y Gyfraith yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o’r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a’r cyfleoedd a’r heriau sy’n benodol i faes y Gyfraith.

Bu datblygiad sylweddol iawn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes y Gyfraith. Bellach, gellir astudio nifer sylweddol o gredydau yn y Gymraeg ym mhrifysgolion Bangor, Aberystwyth a Chaerdydd, a darpariaeth lai ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori’r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy’n parhau o du’r Coleg Cymraeg, e.e. drwy’r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a ph’un a

ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd. Mae gan Brifysgol Abertawe'r potensial i gyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd hefyd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd, sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	**Darpariaeth**	**Staff**	**Myfyrwyr[1]**
Prifysgol Abertawe	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	3 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 5 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 3 aelod staff rhan-amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 2 aelod staff llawn amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 146 sy'n gallu siarad Cymraeg[2] Bl1–Bl3.
Prifysgol Aberystwyth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	5 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 4 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 4 aelod staff rhan-amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. 2 aelod staff llawn amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 28 sy'n gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3.
Prifysgol Bangor	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	2 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 2 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

1 Gwybodaeth yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf.

2 Nid oes modd cadarnhau a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

		2 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 2 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg.	54 sy'n gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3.
Prifysgol Caerdydd	O leiaf 80 credyd bob blwyddyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 5 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 3 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 5 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 68 sy'n gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3 (+ 10 ôl-radd sy'n gallu siarad Cymraeg).

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	• Dangosodd gwaith ymchwil TEF (*Teaching Excellence Framework*) a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017 bod myfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs yn y Gymraeg yn fwy tebygol o gael swyddi gwell ac yn llai tebygol o adael eu cyrsiau'n gynnar o gymharu â myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg.[3] • Bydd gweithgareddau cwrs-gysylltiedig yn cael eu trefnu ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynadleddau cenedlaethol ac ymrysonau o dro i dro. • Bydd angen ystyried cefnogi modiwlau cydweithredol sy'n rhoi ystod ehangach o'r pwnc heb effeithio ar leoliad y brifysgol. • Bydd ffocws ar bwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo'r Gyfraith yn y Gymraeg ymysg myfyrwyr ysgol a cholegau Addysg Bellach. • Bydd angen am ragor o adnoddau agored newydd yn y Gymraeg i fyfyrwyr y Gyfraith ar y Porth. • Bydd angen datblygu ymhellach yr ymdeimlad o berthyn a rhannu gwybodaeth i'r myfyrwyr Cymraeg ar faterion yn ymwneud â byd y Gyfraith a Chyfraith Cymru. Gwneir hyn drwy gyfrwng cylchlythyr pynciol ddwywaith y flwyddyn a chyfrif Twitter @CyfraithCCC. • Bydd ffocws ar danlinellu manteision ar ddosbarthiadau llai gyda pherthynas agosach gyda'u darlithwyr. Mae hyn yn bwynt pwysig mewn pwnc fel y Gyfraith sy'n denu niferoedd mawr o fyfyrwyr. • Bydd y cynllun yn amlygu ac ymgorffori'r ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae Cyfraith yng Nghymru yn ymwahanu oddi ar Gyfraith Lloegr. Gall y gwahaniaethau cynnil hyn gael eu colli mewn darlithoedd Saesneg. Golyga hyn fod gan y myfyriwr Cymraeg sgiliau ychwanegol wrth fynd i faes gwaith. • Bydd profiad gwaith ar leoliad i ddeiliaid ysgoloriaethau'r Coleg, ynghyd â'r Dystysgrif Sgiliau Iaith yn gaffaeliad pwysig i'r myfyrwyr.
Darlithwyr	• Mae amrediad o ddarlithwyr sy'n medru'r Gymraeg yn addysgu'r Gyfraith. • Buddsoddodd y Coleg mewn 4 myfyriwr PhD sydd bellach yn darlithio yn y maes. • Bydd angen datblygu perthynas bellach gyda byd gwaith y Gyfraith ac yn gwneud defnydd o ddarlithoedd a seminarau gan arbenigwyr o fyd busnes.

[3] http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/267779-myfyrwyr-cyrsiau-cymraeg-yn-cael-swyddi-gwell

Cwricwlwm	• Bydd y cwricwlwm yn ceisio sicrhau darpariaeth Gymraeg yn y modiwlau craidd boed ar ffurf darlithoedd neu seminarau Cymraeg, a hynny'n lleol neu'n gydweithredol. • Bydd cwricwlwm y Gyfraith yn ehangu i gynnwys darpariaeth ôl-radd gan edrych ar gwrs Meistr. • Nodwyd bod cyflwyno arholiad SRA (*Solicitors Regulation Authority*) yn 2020 yn cynnig cyfle i gynnwys darpariaeth Gymraeg a bod angen cydweithio ar hyn. • Bydd angen addasu'r cwricwlwm i ymateb fwyfwy i anghenion byd gwaith a chwricwlwm mwy galwedigaethol. • Bydd y cwricwlwm yn cael ei adnabod am ei arbenigedd yn y newidiadau cyfoes a fydd yn datblygu cyfraith gynhenid Gymreig. • Bydd y cwricwlwm yn manteisio ar well adnoddau Cymraeg ar-lein mewn rhagor o feysydd er mwyn denu myfyrwyr sy'n llai hyderus eu sgiliau ieithyddol. • Bydd y cwricwlwm yn cydweithio'n agos â darlithwyr a modiwlau ym maes Troseddeg gan gydnabod y gorgyffwrdd sydd rhwng y pynciau. • Bydd y cwricwlwm yn ymateb i gydweithio â chyrsiau eraill megis Busnes a Iechyd a Gofal, ynghyd â phynciau yn y Dyniaethau megis Cymraeg, Hanes a Gwleidyddiaeth, er mwyn cynnig modiwlau neu raddau cyfun. • Bydd y cwricwlwm yn agored i dueddiadau newydd ac arbenigol – cyfraith chwaraeon, cyfraith gweithgaredd arlein, ayyb. • Bydd modd trefnu bod ymarferwyr yn y maes yn rhoi cyflwyniadau a chynnal modiwlau o dan system newydd y Coleg Cymraeg o gyllido darpariaeth yn y pwnc yn hytrach na chyllido darlithwyr unigol. • Bydd angen edrych ar gryfhau'r llwybr dilyniant o gwricwlwm israddedig er mwyn cefnogi myfyrwyr PhD yn y pwnc. Nodir bod apêl dilyn cwrs PhD yn wahanol i fyfyrwyr Cyfraith o'i gymharu â phynciau eraill megis Cymraeg neu Hanes, gan fod sawl un sy'n dechrau gyrfa academaidd yn y Gyfraith yn gwneud hynny ar ôl ennill profiad yn y byd gwaith, yn hytrach nag ar ôl astudio tuag at PhD. Dylid edrych ar ffyrdd o apelio at fyfyrwyr sydd efallai eisoes mewn gwaith ond sydd eisiau cymhwyster ychwanegol, neu dylid edrych ar ffyrdd o apelio at fyfyrwyr o bynciau eraill.
Canlyniadau Myfyrwyr	• Mae canlyniadau'r myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol â myfyrwyr o fewn eu hadrannau. Gwelir hyn drwy ganlyniadau gradd ynghyd â nifer y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ennill gwobrwyon am y myfyrwyr gorau / traethodau hir gorau.

Adnoddau	• Bu'r Coleg Cymraeg yn gyfrifol am ariannu adnodd a oedd yn garreg filltir ym maes y Gyfraith, sef e-lyfr 'Sylfeini'r Gyfraith Gyhoeddus' a gyhoeddwyd yn 2017, sydd ar gael yn agored ar y Porth. • Cyhoeddir e-gyhoeddiadau ar Sylfeini Cyfraith Contract; Cyfraith Ymddiriedolaethau; a Chyfraith Elusennau yn y dyfodol. • Ceir darlithoedd ar y Porth ar Adolygiad Barnwrol ac ar Gyfraith Hywel Dda. • Rhoddir blaenoriaeth i gynhyrchu llawlyfrau yn y meysydd a nodir yn y golofn 'Cwricwlwm', yn enwedig adnoddau cyrsiau sylfaen. • Bydd angen adnoddau ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ôl-radd. • Mae tueddiad y Gyfraith o newid yn gyson yn gwneud e-gyhoeddiadau yn adnodd campus i'r myfyrwyr a datblygiad y pwnc.
Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)	• Mae 5,495 yn gweithio yn y sector cyfreithiol yng Nghymru a disgwylir 3124 o agoriadau swyddi erbyn 2024.[4] • Mae cyflogadwyedd cwrs yn hollbwysig i unrhyw bwnc. Mae tueddiad tuag at elfen alwedigaethol gryfach i gyrsiau Cyfraith. Bydd angen i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg adlewyrchu hyn. • Mae gan fyfyrwyr sydd yn dilyn modiwlau Cyfraith yn y Gymraeg a'r Saesneg lefel cyflogadwyedd uchel. • Mae natur cyrsiau Cymraeg yn y Gyfraith yn golygu bod myfyrwyr Cymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng Cyfraith Cymru a Chyfraith Lloegr. Mae'r rhain yn fanteision amlwg i fyfyrwyr sy'n dilyn modiwlau Cymraeg. • Gyda Mesur Cymru 2017, bydd ymwahanu pellach rhwng Cyfraith Cymru a Chyfraith Lloegr. Bydd cyfleoedd am swyddi ar gael nid yn unig fel cyfreithwyr mewn cwmni masnachol, ond hefyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau Cymreig. • Bydd y cynllun yn ceisio sicrhau bod profiad galwedigaethol perthnasol yn rhan o waith y myfyrwyr a'r cwricwlwm. • Gellir edrych ar lwyddiant a rhwydwaith profiadau gwaith ymgeiswyr Tystysgrif Sgiliau Iaith ar gyfer profiadau gwaith i fyfyrwyr eraill. • Dylid pwysleisio'r twf mewn gwrandawiadau Cymraeg yn y llysoedd yn 2015–16 a'r cynnydd a ddisgwylir.[5]

[4] <https://www.careerswales.com/cy/career-search/search?jobTitleId=10022>

[5] http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/41200839 'Cynnydd yn nifer y barnwyr sy'n siarad Cymraeg', BBC Cymru Fyw, 13 Medi 2017.

Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)	• Mae nifer dda o fyfyrwyr yn astudio Cyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sawl her mewn perthynas â datblygiad pellach i'r maes. Bydd blaenoriaeth i feithrin cysylltiadau ac i feithrin cyrsiau llawn neu rannol drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn colegau addysg bellach. • Mae angen sicrhau bod y myfyrwyr hynny sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (h.y. 40 credyd y flwyddyn neu fwy). • Mae angen sicrhau llwybr dilyniant clir i astudiaethau ôl-raddedig gan efallai dargedu myfyrwyr sydd wedi dilyn cwrs israddedig y tu allan i Gymru. • Bydd angen penderfynu sut y gellir datblygu elfen ôl-radd y Gyfraith gyda chwrs galwedigaethol. • Bydd angen datblygu model gwahanol er mwyn denu myfyrwyr i ddilyn cwrs PhD gan edrych ar ddenu personau sydd eisoes yn gyflogedig neu sydd o feysydd eraill.

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn mewn tair prifysgol a 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn prifysgol arall drwy gyfrwng y Gymraeg.	Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn mewn tair prifysgol a 40 credyd ym mhob blwyddyn mewn prifysgol arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Pwyslais ar gyrsiau ag elfen alwedigaethol glir.	Cynnig ystod o ddarpariaeth Gymraeg gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn mewn pedair prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Darpariaeth ôl-raddedig bwrpasol gan gynnwys darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau ôl-gymhwyso a darpariaeth gradd meistr fel bo'n briodol. Trefn rhannu gwaith a phrofiad gwaith gyda sawl cwmni masnachol a sefydliad allanol.
2. Myfyrwyr	70 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws Bl1–Bl3.	90 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws Bl1–Bl3.	110 myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd ar draws Bl1–Bl3.
3. Ysgoloriaethau PhD	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes y Gyfraith bob blwyddyn.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes y Gyfraith bob blwyddyn.	O leiaf 1 PhD cyfrwng Cymraeg ym maes y Gyfraith bob blwyddyn.

4. Dilyniant a chyd-weithio gydag ysgolion	Cyswllt gyda Cholegau Addysg Bellach sy'n addysgu'r Gyfraith. Magu perthynas â CBAC. Rhannu adnoddau â disgyblion chweched dosbarth.	Digwyddiad Cyfraith i ddisgyblion ysgol / colegau addysg bellach.	Adnoddau Cyfraith yn y Gymraeg ar gyfer Lefel A (cyd-weithio gyda CBAC).
5. Datblygu darpariaeth ôl-radd	Datblygu model o gwrs galwedigaethol ôl-radd.	Cwrs galwedigaethol ôl-radd ar gael.	

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	**Nod gweithredu**	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
Prifysgol Abertawe	**Myfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd**	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.
	Nifer Darlithwyr	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio i ddatblygu adnoddau cyfreithiol gyda phrifysgolion eraill.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau	Datblygu modiwlau ar y cyd ag adrannau eraill megis Cymraeg, Hanes a Gwleidyddiaeth.	Darpariaeth modiwlau ar y cyd ar gael.	
Prifysgol Aberystwyth	**Myfyrwyr yn astudio 40 credyd**	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.

	Nifer darlithwyr	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio i ddatblygu adnoddau cyfreithiol gyda phrifysgolion eraill.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau	Datblygu modiwl cydweithredol gyda'r Dyniaethau.	Modiwlau cydweithredol ar gael.	
Prifysgol Bangor	**Myfyrwyr yn astudio 40 credyd**	O leiaf 6 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.
	Nifer darlithwyr	3 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	4 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

	Modiwlau	Datblygu modiwlau craidd gyda phrifysgolion eraill.	Rhannu modiwlau craidd fel bo'n briodol. Datblygu elfen alwedigaethol i'r cwrs. Datblygu adnoddau cyfreithiol yn y Gymraeg.	Rhai myfyrwyr yn astudio PhD Cyfraith. Adnoddau cyfreithiol ar gael i'w rhannu.
Prifysgol Caerdydd	**Myfyrwyr yn astudio 40 credyd**	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 10 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.	O leiaf 15 myfyriwr yn astudio ym mhob blwyddyn.
	Nifer darlithwyr	5 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	6 aelod staff cyfwerth amser llawn yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Modiwlau	Datblygu cwrs ôl-radd Gradd Meistr.	Cwrs Meistr ar gael. Cydweithio i ddatblygu adnoddau cyfreithiol gyda phrifysgolion eraill.	Myfyrwyr yn dilyn cwrs Meistr. Myfyrwyr yn gwneud PhD. Adnoddau cyfreithiol yn y Gymraeg ar gael.